

LLAWLYFR MODWL

ECAD5003/C

Hawliau'r Plentyn: Cynhwysiant ac Amrywiaeth

BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig

Y Gyfadran Addysg a Chymunedau

Lefel 5

2018-2019

1. Manylion Cysylltu

Os bydd arnoch angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl, cysylltwch â'r canlynol:

Nanna Ryder

01267 676795

n.ryder@uwtsd.ac.uk

(Cydlynnydd modwl)

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen ac rydym yma i'ch helpu.

Dylech:

- Wneud yn fawr o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Dod i sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad a osodir
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn.

Darllenwch Reoliadau'r Brifysgol - Canllaw i Fyfyrwyr.

Darllenwch y Llawlyfr Sgiliau Astudio.

AMCANION

- Archwilio rhwystrau i gyflawniad a chyfranogiad sy'n effeithio ar ddysgu.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o gefnogi disgyblion unigol i gyflawni'u potensial yn llawn.

DEILLIANNAU DYSGU

Erbyn diwedd y modwl hwn dylai'r hyfforddeion allu:

- arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o amrywiol anghenion dysgu ychwanegol plant ar sail persbectifau damcaniaethol a modelau o arfer cynhwysol;
- archwilio'n fanwl ystod o faterion sy'n effeithio ar brofiadau dysgu cyfannol;
- gwerthuso'r modd y cefnogir anghenion dysgu unigol gan gynnwys gwahaniaethu a chyfleoedd cyfartal;
- dangos sgiliau mewn dysgu yn seiliedig ar broblemau, gan gynnwys cydweithio ag eraill;
- trefnu eu gwybodaeth a'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, a chyflwyno'u gwaith ar y lefel briodol.

4. Darllen Cefndirol/Tasgau Hanfodol

Bydd y tasgau/deunydd darllen canlynol yn ddarllen cefndirol defnyddiol ar gyfer rhai o'r themau a gaiff eu harchwilio yn ystod y modwl. Byddwch yn cael eich cyfeirio at rai o'r rhain yn ystod y sesiynau.

ADY (Cyffredinol)

- Llwythwch lawr y ddogfen 'Cynllun Datblygu Unigol' o wefan SNAP Cymru a'i darllen: www.snapcymru.org.uk.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Rhaglen Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru - www.llyw.cymru/ADY

Hawliau Plant

<https://www.complantcymru.org.uk/>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2005) *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tlodi ac allgae cymdeithasol

Edrychwch ar wefan Sefydliad Joseph Rowntree: www.jrf.org.uk a nodwch erthyglau allweddol sy'n canolbwyntio ar dlodi ac addysg yng Nghymru. Ystyriwch sut mae hyn yn cysylltu ag elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig.

Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth

- www.autism.org.uk/cymru
- www.autismspeaks.org
- www.autism.com

Anawsterau Dysgu Penodol

- Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015) *Fframwaith Anawsterau Dysgu Penodol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llwythwch lawr y daflen 'Information for Teachers' o wefan "Dyslexia Scotland" a'i darllen: www.dyslexiascotland.org.uk.

TGCh

- Darllenwch: Technegau chwilio uwch ar y rhyngrwyd a lwythwyd ar blatfform e-ddysgu Moodle.
- Trafodaeth ar sail cwestiwn allweddol yn y fforwm ar Moodle.
- Dolenni gwe a lwythwyd ar Moodle.
- Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â meddalwedd taenlenni. Os bydd angen, defnyddiwch diwtorial ar-lein i ddiweddarau'ch sgiliau megis:

http://www.baycongroup.com/excel2007/01_excel.htm

Gwylwch y fideo hyfforddi a lwythwyd ar Moodle.

5. Crynodeb o'r modwl

Gall trefn y sesiynau hyn newid yn ôl yr amgylchiadau ac argaeledd tiwtoriaid a gall sesiynau gwmpasu'r un themâu. Annogir myfyrwyr i ymweld ag uned/ysgol arbennig at ddibenion arsylwi cyn diwedd y modwl. Bydd myfyrwyr yn gyfrifol am drefnu eu lleoliad eu hunain a bydd cydlynnydd y modwl yn monitro a chefnogi wrth chwilio am leoliadau addas. Bydd hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth o ddarpariaeth ADY tu fewn a thu hwnt i addysg brif ffrwd.

Sesiwn	Crynodeb o'r Ddarlith	Safonau SAC
1 Wythnos 8	Anghenion Dysgu Ychwanegol 1: Cyflwyniad a chefnidir i ADY, gan ffocysu ar anabledd, mynediad, cynhwysiant a'r datblygiadau cyfredol yng Nghymru.	S1.1 S1.8 S2.6
2 Wythnos 9	Anghenion Dysgu Ychwanegol 2: ADY a chynhwysiant yn y dosbarth – archwilio strategaethau rheoli dosbarth, cynllunio person ganolog a Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).	S1.1, S1.4, S1.8, S2.6 S3.1.2, S3.2.13, S3.2.6, S3.2.7 S3.3.4
3 Wythnos 25	Anghenion Dysgu Ychwanegol 3: Cyflwyniad i asesiad y modwl. Trosolwg o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant	S1.1, S1.4, S1.8, S2.6 S3.1.2, S3.2.13, S3.2.6, S3.2.7, S3.3.4
4 Wythnos 25	Tiwtorial TGCh 1: Defnyddio dulliau chwilio uwch ar y rhyngwrdd i gasglu gwybodaeth.	S2.5
5 Wythnos 25	Anghenion Dysgu Ychwanegol 4: Gweld y byd trwy lygaid gwahanol – cefnogi disgyblion ar y sbectwm awtistig.	S1.1 S3.3.1 S3.3.4
6 Wythnos 25	Tiwtorial TGCh 2: Creu holiaduron gan ddefnyddio sgiliau TG penodol a'r ystyriaethau moesegol sydd ynghlwm â hynny. Defnyddio holiaduron ar gyfer ymchwil.	S2.5
7 Wythnos 26	Anghenion Dysgu Ychwanegol 5: Anawsterau dysgu penodol – y rhodd o ddyslecsia a dyscalciwlia. Gweithdai i edrych ar ddulliau a strategaethau aml-synhwyraidd i gefnogi dysgu.	S1.1 S3.3.1 S3.3.4
8 Wythnos 26	Tiwtorial TGCh 3: Cyflwyno data i ddadansoddi taenlenni a siartiau	S2.5 S3.3.10

9 Wythnos 26	DSB Sesiwn 1 Cyfle i'r grwpiau i drafod ac adolygu eu holiaduron gyda thiwtor. Bydd system apwyntiadau yn cael ei threfnu.	
10 Wythnos 26	Anghenion Dysgu Ychwanegol 6: Effaith tlodi ar gyrhaeddiad disgyblion yng Nghymru. Bydd y sesiwn hon yn archwilio'r cysylltiad â'r Cwricwlwm Cymreig.	S1.1 S3.3.14
11 Wythnos 26	Anghenion Dysgu Ychwanegol 7: Amlychirwydd ac amrywiaeth ddiwylliannol, e.e. Saesneg fel laith Ychwanegol. Bydd y sesiwn hon yn archwilio'r cysylltiad â'r Cwricwlwm Cymreig.	S1.1 S2.4 S3.2.5 S3.3.5
12 Wythnos 27	DSB Sesiwn 2 Cyfle i'r grwpiau i drafod ac adolygu eu holiaduron gyda thiwtor. Bydd system apwyntiadau yn cael ei threfnu.	
13 Wythnos 27	Anghenion Dysgu Ychwanegol 8: Lles y plentyn – archwilio materion emosiynol a meddyliol.	S1.1 S2.4 S3.2.4 S3.3.4 S3.3.1
14 Wythnos 28	DSB Sesiwn 3 Cyfle i'r grwpiau i drafod ac adolygu eu holiaduron gyda thiwtor. Bydd system apwyntiadau yn cael ei threfnu	
15 Wythnos 28	Anghenion Dysgu Ychwanegol 9: Sesiwn 'Holi ac Ateb' gyda siaradwyr gwadd.	S1.1, S1.4 S1.8, S2.6 S3.1.2, S3.2.13 S3.2.6, S3.2.7 S3.3.4
16 Wythnos 29	Anghenion Dysgu Ychwanegol 10: Cefnogi disgyblion ag anghenion amrywiol, e.e. corfforol, meddygol a.y.yb.	S1.1 S2.4 S3.2.6
17 & 18 (cyn diwedd y modwl)	Anghenion Dysgu Ychwanegol 11: Yr ystafell ddosbarth gynhwysol: ymweld ag uned/ysgol arbennig. Bydd myfyrwyr yn gyfrifol am drefnu eu lleoliad eu hunain a bydd cydlynnydd y modwl yn monitro a chefnogi wrth chwilio am leoliadau addas.	S1.1 S2.4 S3.2.6
19 Wythnos 30	Sesiwn adolygu: Adfyfrio ar gynnwys y modwl a pharatoi ar gyfer yr asesiad	S1.1 S1.8 S2.4 S2.6

6. Tasgau asesu

COD MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
ECAD5003C	Hawliau'r Plentyn: Cynhwysiant ac Amrywiaeth	Aseiniad ysgrifenedig - ymchwil ar raddfa fach a dadansoddiad (cyfwerth â 4,000 o eiriau). 100%
<u>Dyddiad cyflwyno: 30/04/19</u>		

Gofynion yr Ysgol wrth gyflwyno aseiniadau

1. **RHAID** i bob hyfforddai gyflwyno rhestr wirio hunanasesu ar gyfer pob aseiniad (gweler atodiad F yn y *Llawlyfr Sgiliau Astudio*). Gwnewch yn siŵr eich bod yn ticio pob elfen a gwblhawyd gennych.
2. **RHAID** i bob hyfforddai gynnwys copi wedi'i gwblhau o'r daflen adrodd ar asesiad ar gyfer pob aseiniad. Gwelir y daflen adrodd ar asesiad yn yr adran *Tasgau a chanllawiau asesu* ym mhob llawlyfr modwl (bydd e-fersiwn o bob llawlyfr modwl ar gael ar Moodle).
3. **RHAID** i bob hyfforddai roi ei rif myfyriwr ar y daflen adrodd ar asesiad a hefyd llenwi adran hunanwerthuso'r daflen ar gyfer pob aseiniad.
4. Wrth gyflwyno gwaith **sicrhewch eich bod yn ei gyflwyno'n ddiogel e.e. mewn ffolder â sip neu fotwm fel y gellir ei gau**. Os cyflwynir gwahanol elfennau ar yr un dyddiad cyflwyno, gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu cysylltu'n "ddiogel" â'i gilydd, yn yr un ffolder lle bo modd. **RHAID** hefyd gynnwys fersiwn electronig (CD rom, cofbin ac ati). Cyfrifoldeb hyfforddeion yw cadw copïau o'u gwaith.
5. **RHAID** i bob hyfforddai sicrhau bod rhif myfyriwr cywir ar bob tudalen o'i waith ac ar unrhyw eitem (ni waeth pa mor fach) sydd wedi'i chynnwys fel rhan o asesiad. Ar bob CD ROM **RHAID** nodi rhif y myfyriwr, y modwl ac unrhyw deitl aseiniad perthnasol gan ddefnyddio pen inc parhaol.
6. **RHAID** i bob hyfforddai gynnwys y ffurflen gyflwyno gywir gan gynnwys ei rif myfyriwr, y cod modwl **CYWIR** a'r enw **CYWIR** ar gyfer y Cydlynnydd Modwl (gellir dod o hyd i'r rhain ym mhob llawlyfr modwl).
7. **RHAID** i'r hyfforddeion eu hunain wirio cynnwys pob CD a gynhwysir fel rhan o'r asesiad – yr hyfforddeion sy'n **llwyr gyfrifol** am sicrhau bod y cynnwys ar y CD ac wedi'i gadw'n gywir.
8. **RHAID** i bob tudalen brintiedig a gyflwynir fodloni gofynion Ysgol HAGA (e.e. o ran paragraffu, y bwch rhwng llinellau ac ati) a restrir yn y Llawlyfr Sgiliau Astudio.

Dylech bob amser holi'r Cydlynnydd Modwl ynglŷn ag unrhyw ofynion penodol eraill.

Hanfodol

Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. (2016) *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael yn:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/160318-inclusion-and-pupil-support-cy.pdf>

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Hawlfraint y Goron. Ar gael o:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cym.pdf>

Farrell, M. (2012) *Educating Special Children*. 2nd edn. Oxon: Routledge.

Glazzard, J., Hughes, A., Netherwood, A., Neve, L., & Stokoe, J. (2015) *Teaching Primary Special Educational Needs*, (2nd ed.) [Online], Exeter: Learning Matters Ltd.

Llywodraeth Cymru (2017) *Fersiwn Drafft Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*. Ar gael o:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s59527/Fersiwn%20Ddrafft%20or%20Cod%20Anghenion%20Dysgu%20Ychwanegol%20Chwefror%202017.pdf>

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2008) *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010) *Cwricwlwm i bob dysgwr*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Peer, L. & Reid, G. (eds.) (2016) *Special Educational Needs – A Guide for Inclusive Practice* (2nd ed.) , London: Sage.

Ryder, N. (2013) *Yr ABC i Anghenion Ychwanegol*. Caerfyrddin: Canolfan Peniarth.

Spooner, W. (2011) *The SEN Handbook for Trainee Teachers, NQTs and Teaching Assistants*. 2nd edn. [Online], Oxon: Routledge.

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014) *Ail-ysgrifennu'r Dyfodol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Argymhellir

Estyn. (2005) *Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth mewn Ysgolion yng Nghymru*, Caerdydd: Estyn.

Estyn. (2011) *Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ac Arfer mewn Ysgolion ac Unedau Cyfeirio – Mehefin 2011*, Cardiff: Estyn. Ar gael yn:

<http://www.estyn.gov.uk/english/docViewer/202101.9/review-of-disability-equality-schemes-and-practice-in-schools-and-pupil-referral-units-june-2011/?navmap=30,163>,

Estyn. (2011) *Mynd i'r afael â Thlodi Plant ac Anfantais mewn Ysgolion – Cydweithio â'r Gymuned a Gwasanaethau Eraill – Gorffennaf 2011*, Caerdydd: Estyn. Ar gael yn:

<http://www.estyn.gov.uk/english/docViewer/1774.5/tackling-child-poverty-and-disadvantage-in-schools-january-2010/?navmap=30,119,169>,

Frederickson, N. & Cline, T. (2009) *Special Educational Needs, Inclusion and Diversity*, [Online], Maidenhead: Open University Press.

Llywodraeth Cymru, (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Llywodraeth Cymru: <http://learningwales.gov.uk/resources/nlnf>

Cylchgronau

British Journal of Special Education [e-journal]

Journal of International Special Needs Education

Journal of Research in Special Educational Needs [e-journal]

*Special
Special Children
Support for Learning [ar lein]
Teacher Education and Special Education [e-journal]*

Gwefannau

Bevan Foundation - www.bevanfoundation.org
Centre for Studies on Inclusive Education – www.csie.org.uk
Commission for Racial Equality – www.cre.gov.uk/publ
Joseph Rowntree Foundation - www.jrf.org.uk/
Llywodraeth Cymru – www.wales.gov.uk
NASEN - www.nasen.org.uk
National Association for Language Development in the Curriculum – www.naldic.org.uk
Fframwaith ABCh - wales.gov.uk/psesub/home/resources/documents/pseframework/
SNAP Cymru – www.snapcymru.org.uk
SurveyMonkey - www.surveymonkey.net
The National Association for Able Children in Education – www.nace.co.uk

Cyfeirir hyfforddeion at ystod o wefannau ychwanegol dros gyfnod y modwl.